



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Rheoleiddio'r Gweithlu

Polisiau a Gweithdrefnau

Polisi Cyhoeddi

**Polisi ar gyhoeddi a rhannu gwybodaeth am bersonau cofrestredig
a phobl eraill sydd ynghlwm wrth weithrediadau Gofal
Cymdeithasol Cymru**

Ebrill 2020

Cynnwys

Adran 1:	Cyflwyniad – rheswm dros y polisi	3
Adran 2:	Gwybodaeth sy'n ymddangos ar y Gofrestr a'r Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr	5
Adran 3	Gwybodaeth sy'n ymddangos ar dudalen Gwrandawiadau ein gwefan	7
Adran 4:	Achosion addaswydd i ymarfer nad ydynt yn ymwneud â materion iechyd	8
Adran 5:	Achosion addaswydd i ymarfer lle mae iechyd yn sail ar gyfer amhariad	10
Adran 6:	Achosion adfer	12
Adran 7:	Datganiadau i'r wasg	13
Adran 8:	Amrywiol	15
Atodiad 1		18
Atodiad 2		21

Polisi ar gyhoeddi a rhannu gwybodaeth am bersonau cofrestredig a phobl eraill sydd ynghlwm wrth weithrediadau Gofal Cymdeithasol Cymru

1. Cyflwyniad – rheswm dros y polisi

- 1.1 Mae adran 68 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“y Ddeddf”) yn nodi mai prif amcan Gofal Cymdeithasol Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau yw diogelu, hyrwyddo a chynnal diogelwch a lles y cyhoedd yng Nghymru.¹
- 1.2 Fel rhan o’n gwaith i ddiogelu’r cyhoedd, rhaid i ni gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru (‘y Gofrestr’) a ‘Rhestr o Bersonau Sydd Wedi Eu Tynnu oddi ar y Gofrestr’ (‘y Rhestr’) ar wahân yn dilyn achosion addasrwydd i ymarfer – adrannau 80 a 110 y Ddeddf.
- 1.3 Mae rhoi mynediad i bobl i’r Gofrestr a’r Rhestr yn ofyniad cyfreithiol ac mae’n ein helpu yn ein dyletswydd statudol i ddiogelu’r cyhoedd trwy ganiatáu i bobl wirio p’un ai yw unigolyn:
- yn weithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig
 - yn rhydd i ymarfer heb unrhyw gyfyngiad
 - erioed wedi cael eu henw wedi ei dynnu oddi ar y Gofrestr.
- 1.4 Rydym yn defnyddio fersiynau ar-lein o’r Gofrestr a’r Rhestr i’w gwneud hi’n haws i’r cyhoedd gael mynediad i’r wybodaeth. Gellir dod o hyd i’r rhain ar dudalen ‘Cofrestru’ ein gwefan.²
- 1.5 Mae’r wybodaeth y mae’n rhaid i ni, ac y caniateir i ni, ei chynnwys ar y Gofrestr wedi’i nodi yn adran 91 y Ddeddf. Ategir hyn gan Reoliadau Gofal

¹ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh>

² <https://www.scwonline.wales/cy/search-the-register/>

Noder: Gallwn ymateb i geisiadau rhesymol i ddarparu detholiadau o’r Gofrestr mewn fformatau eraill.

Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016³ a Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru Cynnwys y Gofrestr 2020.⁴

- 1.6 Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid i ni, ac y caniateir i ni, ei chynnwys yn y Rhestr wedi'i nodi yn adran 110 y Ddeddf ac yn Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016.⁵
- 1.7 O dan adran 161 y Ddeddf, rhaid i ni hefyd wneud y cyhoedd yn ymwybodol o achosion addasrwydd i ymarfer a chanlyniadau'r achosion hynny. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ein prosesau yn dryloyw ac yn deg, ac i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn ein gwaith rheoleiddio ac yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hefyd er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am unrhyw wrandawiadau y gallant eu mynychu.⁶ Rydym yn defnyddio ein gwefan a'n datganiadau i'r wasg i wneud hyn, er y gallwn ddefnyddio mathau eraill o gyhoeddusrwydd yn ogystal.
- 1.8 Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a gyhoeddwn wedi'i nodi yn y gyfraith ac mae ychydig o sefyllfaoedd lle gellir arfer disgrisiwn. Mae'r polisi hwn yn esbonio sut rydym yn cyflawni ein dyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer a sut rydym yn arfer ein disgrisiwn yn yr ychydig o sefyllfaoedd lle mae hynny'n berthnasol.
- 1.9 Prif amcanion y polisi hwn yw:
- darparu egwyddorion arweiniol i'n staff ar gyfer gweithredu'n gyfreithlon ac yn deg wrth gyhoeddi gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer y personau cofrestredig yn ein Cofrestr ac ar ein gwefan
 - gwneud gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn fwy hygyrch i'r cyhoedd trwy esbonio ein dull o'i chyhoeddi

³ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/1097/contents/made/welsh>

⁴ <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/rheolau-cofrestru-cynnwys-y-gofrestr-2020>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/1111/body/made/welsh>

⁶ Cynhelir rhai gwrandawiadau yn breifat ac ni chaiff y cyhoedd fynychu'r gwrandawiadau hyn. Os bydd gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat, byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ein gwefan.

- helpu gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig i ddeall sut y bydd gwybodaeth am eu ffitrwydd i ymarfer yn cael ei chyflwyno ar y Gofrestr ac ar ein gwefan
- helpu'r cyhoedd i ddeall ein gwaith.

1.10 Mae'r polisi yn nodi'r mathau o wybodaeth y byddwn yn eu cynnwys ar ein gwefan, ar y Gofrestr ac ar y Rhestr, ac am ba hyd y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw yno.⁷

1.11 Mae'r polisi yn adlewyrchu:

- ein dyletswyddau cyfreithiol
- hawliau unigolion sydd ynghlwm wrth achosion addasrwydd i ymarfer
- budd y cyhoedd yn yr achosion hynny
- yr angen i ni sicrhau bod unrhyw wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi am ein hachosion addasrwydd i ymarfer yn berthnasol, yn gywir, yn gymesur ac yn deg
- ein dyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, gan gynnwys yr angen i ni fod â Dogfen Bolisi Briodol yn ei lle wrth brosesu data troseddu.

1.12 Bydd dadansoddiad o effaith data yn cyd-fynd â'r polisi, a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol, neu'n amlach os bydd angen.

2. Gwybodaeth sy'n ymddangos ar y Gofrestr a'r Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr

2.1 Rhaid i ni gynnwys y wybodaeth ganlynol am bob person cofrestredig ar y Gofrestr:

⁷ Mae hyn yn cyfeirio at dudalennau Gwrandawiadau gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru ac nid y Gofrestr ar-lein.

- a. enw neu enwau⁸
- b. rhif cofrestru
- c. dyddiad cofrestru
- ch. y rhan o'r gofrestr y mae'r person wedi'i gofrestru ynddi
- d. cymwysterau'r person i ymarfer yn y rôl gofrestredig
- dd. sir post sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad lle mae'r person yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig (ac eithrio os yw'r tu allan i'r DU)⁹
- e. os yw'r person cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, y sir post lle mae'r person cofrestredig yn cymryd rhan mewn cwrs gradd¹⁰
- f. cymwysterau, gwybodaeth neu brofiad a nodir yn yr atodlen i Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016.

Yn ôl y gyfraith, bydd y wybodaeth hon ar gael ar y Gofrestr trwy gydol cofrestriad y person.

- 2.2 Rhaid i ni ddiweddarau'r Gofrestr i ddangos newidiadau perthnasol i gofnod y person cofrestredig. Mae hyn yn cynnwys manylion unrhyw achosion addasrwydd i ymarfer neu achosion apeliadau cofrestru perthnasol. Mae Atodiad 1 yn nodi'r mathau o wybodaeth addasrwydd i ymarfer y mae'n rhaid i ni, ac y caniateir i ni, eu cynnwys ar y Gofrestr, ac am ba hyd y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw yno.
- 2.3 Rhaid i ni hefyd ddiweddarau'r Rhestr â newidiadau perthnasol. Mae Atodiad 2 yn nodi'r penderfyniadau yn ymwneud â hyn a'r wybodaeth a fydd yn ymddangos ar y rhestr.
- 2.4 Yn ôl y gyfraith, rhaid i rywfaint o wybodaeth am achosion addasrwydd i ymarfer aros ar y Gofrestr cyhyd â bod y person wedi'i gofrestru, hyd yn oed

⁸ O dan reol 3 Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru Cynnwys y Gofrestr 2020, mae hyn yn cynnwys enwau presennol a blaenorol. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Cofrestrydd benderfynu peidio â chynnwys enwau blaenorol ar y Gofrestr.

⁹ Os nad yw person cofrestredig wedi'u cyflogi ar hyn o bryd, bydd y blwch hwn yn nodi 'nid yw'n berthnasol'. Yn ogystal, os oes rhesymau dilys dros beidio â dangos y wybodaeth hon yng nghofnod unigolyn ar y Gofrestr, ni fyddwn yn ei chynnwys.

¹⁰ Ni chofnodir enw neu enwau'r myfyriwr ar y Gofrestr hyd nes y bydd y Cofrestrydd yn fodlon bod y myfyriwr wedi dechrau cymryd rhan mewn cwrs gradd.

pan fo'r gorchymyn addasrwydd i ymarfer wedi peidio â chael effaith. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am orchmynion atal dros dro, gorchmynion cofrestru amodol a thynnu oddi ar y Gofrestr yn flaenorol. Gallwch ddod o hyd i'r manylion yn Atodiad 1.

3. Gwybodaeth sy'n ymddangos ar dudalen Gwrandawiadau ein gwefan

Ein dyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi gwybodaeth am achosion addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau adfer

- 3.1 Mae adran 161 y Ddeddf yn dweud bod rhaid i ni gyhoeddi rhai penderfyniadau addasrwydd i ymarfer penodol. Mae'n cynnwys rhestr o benderfyniadau perthnasol ac yn nodi penderfyniadau ychwanegol y gallwn eu cyhoeddi, er nad yw'n ofynnol i ni wneud hynny. Mae'n dweud rhaid i ni beidio â chyhoeddi unrhyw wybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol person.
- 3.2 Mae adran 109 y Ddeddf yn dweud bod rhaid i ni gyhoeddi unrhyw benderfyniadau gan baneli apeliadau cofrestru i beidio ag adfer person i'r Gofrestr, yn ogystal ag unrhyw benderfyniadau na chaiff person wneud ceisiadau pellach am eu hadfer. Mae'n dweud rhaid i ni beidio â chyhoeddi unrhyw wybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol person.
- 3.3 Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau eithriadol lle y byddwn ni, er y caniateir i ni gyhoeddi gwybodaeth am wrandawriad, yn dewis peidio â gwneud hynny. Gwneir y penderfyniadau hyn gan y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd, a fydd yn ystyried materion fel (ond heb fod yn gyfyngedig i):
- ein dyletswyddau diogelu'r cyhoedd
 - hawliau'r gwahanol bartïon sydd ynghlwm wrth y gwrandawriad
 - unrhyw ddeddfwriaeth neu gyfraith achos berthnasol
 - cyngor cyfreithiol perthnasol

- yr angen am dryloywder yn ein prosesau
- polisi perthnasol y llywodraeth.

3.4 Mae adran 159 y Ddeddf yn dweud y gallwn gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth i unrhyw berson am addasrwydd person cofrestredig i ymarfer os byddwn yn credu ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Bydd ein Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn gwneud penderfyniadau am hyn ac yn ystyried materion fel (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rhai a restrir yn adran 3.3 uchod.

3.5 Ni fyddwn yn cyhoeddi:

- gwybodaeth sy'n caniatáu adnabod personau o dan 18 mlwydd oed, gan gynnwys personau cofrestredig o dan 18 mlwydd oed
- gwybodaeth am euogfarnau 'wedi'u disbyddu' o dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr
- gwybodaeth sy'n caniatáu adnabod dioddefwyr troseddau rhywiol
- manylion achosion preifat mewn llys teulu
- enw cartref gofal preswyl/cartref i blant
- gwybodaeth sy'n caniatáu adnabod tystion.

Mae prosesau sgrinio priodol ar waith yn ein tîm Addasrwydd i Ymarfer a'n tîm Gwrandawiadau i sicrhau nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y wybodaeth a gyhoeddwn. Mae ein hadolygiadau cyn gwrandawriad yn darparu gwiriadau sgrinio ychwanegol.

3.6 Fel arfer, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau apeliadau cofrestru ar ein gwefan ac mewn datganiadau i'r wasg. Mae'r polisi hwn yn nodi manylion yr hyn y byddwn yn ei gyhoeddi ar ein gwefan ac am ba hyd y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw yno.

4 Achosion addasrwydd i ymarfer nad ydynt yn ymwneud â materion iechyd

Gwybodaeth a gyhoeddir cyn gwrandawriad

4.1 Wythnos cyn gwrandawriad addaswydd i ymarfer, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig ar ein gwefan:

- enw
- rhif cofrestru
- rôl
- cyflogwr/cyn-gyflogwr
- dyddiad y gwrandawriad
- lleoliad y gwrandawriad
- crynodeb o'r honiadau.¹¹

4.2 Os bydd yr honiadau'n newid yn ystod gwrandawriad, byddwn yn cyhoeddi'r honiadau wedi'u haddasu ar ein gwefan. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd wedi i'r gwrandawriad ddod i ben.

Yr hyn a gyhoeddwn mewn achosion lle canfyddir amhariad

4.3 Os canfyddir gan banel Gofal Cymdeithasol Cymru bod amhariad ar ffitrwydd i ymarfer person cofrestredig, byddwn yn diweddarau'r Gofrestr neu'r Rhestr, fel y bo'n briodol. Byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r canllawiau yn Atodiadau 1 a 2.

4.4 Ar ddiwedd y gwrandawriad, byddwn hefyd yn ychwanegu'r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig ar ein gwefan:

- canlyniad y gwrandawriad a rhesymau'r panel.¹²

¹¹ Noder: nid yw gwrandawriadau adfer yn cynnwys honiadau.

¹² Cyhoeddir rhesymau'r panel yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar gyhoeddi gwybodaeth – er enghraifft, gwybodaeth am blant, am ddiodefwrwr troseddau rhywiol ac euogfarnau wedi'u disbyddu.

- 4.5 Bydd gwybodaeth am y gwrandawriad, gan gynnwys yr honiadau a rhesymau'r panel, yn aros ar ein gwefan cyhyd â bod y gorchymyn addasrwydd i ymarfer yn ei le a bydd yn cael ei dileu pan fydd y gorchymyn wedi peidio â chael effaith – gweler Atodiad 1. Mae hyn yn unol â'r amserlenni a nodir yn y gyfraith ar gyfer cynnwys y Gofrestr a'r Rhestr. Wrth gyhoeddi'r wybodaeth hon, byddwn yn rhoi sylw dyledus i'r angen i fod yn gywir, yn gymesur, yn dryloyw ac yn deg.
- 4.6 Os canlyniad y gwrandawriad yw gorchymyn dileu, bydd y wybodaeth yn aros ar ein gwefan am bum mlynedd. Mae'r amserlen hon yn adlewyrchu:
- ein dyletswydd statudol i ddiogelu'r cyhoedd
 - natur ddifrifol y gorchymyn dileu
 - y gwaharddiad ar ailymgeisio i fynd ar y Gofrestr am bum mlynedd o leiaf yn dilyn gorchymyn dileu
 - ein hangen i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r cyfyngiad ar ymarfer yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwn.
- 4.7 Yn unol â gofynion y Ddeddf a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016, bydd enwau'r sawl sy'n destun gorchymyn dileu yn aros ar y Rhestr oni bai a hyd nes y bydd eu henw yn cael ei adfer i'r Gofrestr yn dilyn gwrandawriad adfer llwyddiannus neu apêl llwyddiannus i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.

Achosion addasrwydd i ymarfer lle mae'r panel yn canfod nad oes amhariad

- 4.8 Os bydd panel yn canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer, byddwn yn rhoi canlyniad y gwrandawriad ar ein gwefan ar ddiwedd y gwrandawriad. Dim ond os yw'r person yn cydsynio y byddwn yn ychwanegu rhesymau'r panel at y wefan.

- 4.9 Bydd y canlyniad yn aros ar y wefan am wythnos, oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn i ni ei gadw yno am ragor o amser. Bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried y ceisiadau hyn.

5 Achosion addasrwydd i ymarfer lle mae iechyd yn sail ar gyfer amhariad

Gwybodaeth a gyhoeddir cyn gwrandawriad

- 5.1 Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol ar ein tudalen gwrandawiadau ar ein gwefan wythnos cyn gwrandawriad:

- enw
- rhif cofrestru
- rôl
- cyflogwr/cyn-gyflogwr
- math o wrandawriad a ph'un ai a gynhelir y gwrandawriad cyfan yn breifat
- dyddiad, amser a lleoliad.

Canfod amhariad mewn achosion yn ymwneud ag amhariad mewn perthynas ag iechyd

- 5.2 Lle y canfyddir bod gan berson cofrestredig amhariad ar eu ffitrwydd i ymarfer yn dilyn gwrandawriad lle mae iechyd yn sail ar gyfer amhariad, ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth am eu hiechyd corfforol neu feddyliol. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol ar dudalen gwrandawiadau ein gwefan ar ddiwedd y gwrandawriad:

- canlyniad y gwrandawriad a, lle bo hynny'n berthnasol, rhesymau'r panel.¹³

¹³ Os cynhaliwyd rhan o'r gwrandawriad neu'r gwrandawriad cyfan yn gyhoeddus, caiff y rhesymau eu cyhoeddi hefyd, ond bydd gwybodaeth am iechyd y person yn cael ei dileu. Os cynhaliwyd y gwrandawriad cyfan yn breifat, dim ond y canlyniad fydd yn cael ei gyhoeddi.

Bydd y wybodaeth hon yn aros ar ein gwefan cyhyd â bod y gorchymyn addasrwydd i ymarfer yn ei le – gweler Atodiad 1.

5.3 Os ceir gorchymyn ar gyfer dileu, bydd y wybodaeth yn aros ar ein gwefan am bum mlynedd.¹⁴ Mae'r amserlen hon yn adlewyrchu:

- ein dyletswydd statudol i ddiogelu'r cyhoedd
- natur ddifrifol y gorchymyn dileu
- y gwaharddiad ar ailymgeisio i fynd ar y Gofrestr am bum mlynedd o leiaf yn dilyn gorchymyn dileu
- ein hangen i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r cyfyngiad ar ymarfer yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwn.

5.4 Os yw panel yn canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ychwanegol ganlynol ar ein gwefan ar ddiwedd y gwrandawriad:

- y canlyniad
- rhesymau'r panel (â chydysyniad y person cofrestredig yn unig).

Bydd y wybodaeth hon yn aros ar ein gwefan am wythnos, oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn i ni ei chadw yno am ragor o amser. Bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried y ceisiadau hyn.

6 Achosion adfer

6.1 Os yw unigolyn a fu'n destun gorchymyn dileu yn gwneud cais i gael eu hadfer i'r Gofrestr, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol ar ein gwefan wythnos cyn y gwrandawriad:

- enw

¹⁴ Mae'r amserlenni yn adlewyrchu ein rôl fel y rheoleiddiwr proffesiynol, ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd, a'n hangen i fod yn gywir, yn gymesur, yn dryloyw ac yn deg.

- rhif cofrestru
- rôl
- dyddiad y gwrandawriad
- lleoliad y gwrandawriad
- y math o wrandawriad.

6.2 Os bydd panel yn penderfynu y dylid adfer enw'r person i'r Gofrestr, byddwn yn diweddarau'r wefan i ddangos y canlyniad. Byddwn yn tynnu'r holl wybodaeth am y gwrandawriad oddi ar ein gwefan ar ôl wythnos, oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn i ni ei chadw yno am ragor o amser. Bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried y ceisiadau hyn. Bydd enw'r person yn cael ei ychwanegu at y Gofrestr a'i ddileu o'r Rhestr.

Yn unol â gofynion y Ddeddf a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2017, bydd y Gofrestr yn parhau i ddangos bod y person wedi bod yn destun gorchymyn dileu.

6.3 Os bydd panel yn penderfynu na ddylid adfer enw'r person i'r Gofrestr, bydd eu henw yn aros ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr. Byddwn yn dileu gwybodaeth am y gwrandawriad oddi ar ein gwefan ar ôl 12 mis. Mae hyn yn adlewyrchu isafswm y cyfnod y mae'n rhaid i ymgeisydd aros cyn ailymgeisio i fynd ar y Gofrestr yn dilyn penderfyniad gan banel i beidio ag adfer.

6.4 Os bydd panel yn penderfynu y dylid atal hawl y person i wneud cais am adferiad, byddwn yn tynnu gwybodaeth am y gwrandawriad oddi ar ein gwefan ar ôl 12 mis neu, os bydd hyn yn digwydd yn gynt, pan fydd panel yn codi'r ataliad.¹⁵

7 Datganiadau i'r wasg

¹⁵ Mae adran 97(5) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn dweud y gall yr unigolyn a effeithir gan y gorchymyn ofyn i'r Cofrestrydd drefnu adolygiad gan banel o'r gorchymyn.

7.1 Os nad yw iechyd yn sail i amhariad ac nad oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar roi cyhoeddusrwydd i wrandawriad, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig wythnos cyn gwrandawriad:

- enw
- rhif cofrestru
- crynodeb o'r honiadau
- cyflogwr presennol/blaenorol
- ardal awdurdod lleol.

7.2 Pan ddaw'r gwrandawriad i ben, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg am ganlyniad y gwrandawriad ac yn rhoi'r wybodaeth hon ar ein gwefan. Bydd y wybodaeth hon yn aros ar ein gwefan yn unol â'r amserlenni ar gyfer gwybodaeth am ein gwrandawriadau.

8 Darpariaethau amrywiol

Canlyniadau ar lefel swyddog (nid penderfyniadau gan banel)

- 8.1 Os yw person cofrestredig yn destun rhybudd, ymgymeriad neu ddileu trwy gytundeb gan swyddog, byddwn yn rhoi manylion y canlyniad hwn ar y Gofrestr. Mae hyn yn unol â gofynion y Ddeddf a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr). Hefyd, byddwn yn dangos dileu trwy gytundeb (lefel swyddog) ar dudalen gwrandawiadau ein gwefan.
- 8.2 Yn achos rhybuddion ac ymgymeriadau, byddwn yn tynnu'r wybodaeth hon oddi ar y Gofrestr pan fydd y gorchymyn yn peidio â chael effaith. Yn achos dileu trwy gytundeb, byddwn yn tynnu enw'r person oddi ar y Gofrestr yn dilyn y penderfyniad. Hefyd, byddwn yn dileu gwybodaeth am ddileu trwy gytundeb o'n gwefan ar ôl dwy flynedd.

Apeliadau llwyddiannus yn erbyn penderfyniadau paneli addasrwydd i ymarfer

- 8.3 Os caiff y person cofrestredig apêl lwyddiannus yn erbyn penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer a bod y penderfyniad gwreiddiol yn parhau i gael ei ddangos ar ein gwefan, byddwn yn diweddar'u'r wefan i ddangos y canlyniad newydd neu, lle bo hynny'n berthnasol, yn dileu'r cofnod. Ein nod fydd gwneud hyn o fewn wythnos o'r dyddiad y cawsom wybod am y penderfyniad. Bydd y canlyniad yn aros ar y wefan am wythnos, oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn i ni ei gadw yno am ragor o amser. Bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried y ceisiadau hyn.

Gwybodaeth am achwynwyr

- 8.4 Os yw'r achwynydd yn berson sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, neu os oes rhesymau da eraill dros gadw eu hunaniaeth yn gyfrinachol, fel y nodir yn ôl y gyfraith neu fel y penderfynir gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio (neu'r Cyfarwyddwr), ni fyddwn yn cyhoeddi enw'r

achwynydd. Ni fydd unrhyw benderfyniadau am wrandawiadau sy'n cael eu cyhoeddi yn cynnwys gwybodaeth sy'n caniatáu i rywun eu hadnabod.¹⁶

- 8.5 Mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo manylion yr achwynydd i gyrff rheoleiddio eraill, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'r Tribiwnlys Safonau Gofal, ond byddwn yn gwneud hynny'n gyfrinachol ac â chytundeb yr achwynydd. Byddwn yn gwneud hynny'n unol â gofynion unrhyw gytundebau rhannu data perthnasol rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a chyrrff eraill.

Gwybodaeth a allai ymddangos wrth ddefnyddio peiriannau chwilio ar y rhyngwrwyd

- 8.6 Byddwn yn tynnu gwybodaeth am wrandawiadau oddi ar ein gwefan yn unol â'r polisi hwn. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw wedi'i thynnu oddi ar ein gwefan o dan y polisi hwn, mae'n bosibl y bydd yn ymddangos ar beiriannau chwilio ar y rhyngwrwyd fel Google, Yahoo a Bing. Ni allwn atal hyn rhag digwydd, ond gallwch gysylltu â darparwyr peiriannau chwilio yn uniongyrchol i drafod unrhyw bryderon neu ymholiadau ynghylch yr hawl i gael eich anghofio. Byddwn yn gallu cadarnhau os yw gwybodaeth wedi'i thynnu oddi ar ein gwefan ac, os felly, pryd y cafodd ei thynnu.

Cwynion a phryderon

- 8.7 Caiff y polisi hwn ei ddiweddarau o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae'n destun asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data. Rydym bob amser yn agored i dderbyn adborth ar sut y gellir ei wella. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y polisi hwn neu os ydych eisiau rhoi adborth i ni, gweler ein polisi Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion yn <https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/beth-rydym-yn-ei-wneud>

¹⁶ Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddioddefwyr troseddau rhywiol neu gam-driniaeth arall, gan gynnwys lle mae'r cam-driniaeth yn sail ar gyfer yr atgyfeiriad addasrwydd i ymarfer, plant, pobl sy'n agored i niwed a'r sawl sydd mewn perygl o niwed wrth gael eu hadnabod.

Adnoddau eraill

- 8.8 Mae gwybodaeth am ein prosesau addasrwydd i ymarfer a gwrandawladau ar gael yn <https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer>
- 8.9 Gallwch chwilio ein Cofrestr a'n Rhestr a darganfod rhagor am ein prosesau cofrestru ac adfer yn <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru>
- 8.10 Mae copi o'n hysbysiad preifatrwydd ar gael yn <https://gofalcymdeithasol.cymru/generic-content/hysbysiad-preifatrwydd> ac mae gwybodaeth fanwl gan y Comisiynydd Gwybodaeth am eich hawliau diogelu data ar gael yn ico.org.uk/

ATODIAD 1

Gwybodaeth sy'n ymddangos ar Gofrestr Gofal **Cymdeithasol Cymru**

1. Gorchmynion dros dro ar y Gofrestr

Dim ond dau fath o orchymyn dros dro y gellir eu gwneud gan banel addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru – sef gorchymyn cofrestru amodol a gorchymyn atal dros dro.

Bydd cofnodion am orchymynion dros dro ar y Gofrestr yn dangos:

- y math o orchymyn dros dro a wnaed neu a gadarnhawyd
- cyfnod y gorchymyn
- unrhyw amrywiad a wnaed, os yw hynny'n berthnasol
- yn achos gorchymyn cofrestru amodol dros dro, yr amodau a osodwyd, ac eithrio amodau yn ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol.

Byddwn yn tynnu gwybodaeth am y gorchymyn dros dro oddi ar y Gofrestr pan ddaw'r gorchymyn i ben neu y caiff ei ddirymu.

2. Canlyniadau gwrandawiadau ar y Gofrestr – canfod amhariad mewn achosion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd

Os cafwyd canfyddiad o amhariad, bydd y cofnod ar y Gofrestr yn dangos:

- y cafwyd amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer,
- y math o orchymyn a wnaed gan y panel
- cyfnod y gorchymyn (os yw'n orchymyn a ddaw i rym ar unwaith, rhaid nodi hyn)
- manylion y gorchymyn, fel amodau neu ymgymeriadau*.

*Os cytunir ar ymgymeriadau (yn hytrach na'u gorfodi gan y panel), rhaid i'r Gofrestr ddangos bod y person yn cyfaddef bod amhariad ar ei ffitrwydd i ymarfer a nodi'r ymgymeriadau y cytunwyd arnynt, ac eithrio unrhyw ymgymeriadau sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol y person.

3. Pryd fydd gwybodaeth am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer (yn ymwneud ag amhariad) yn cael ei thynnu oddi ar y Gofrestr?

Math o orchymyn	Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu oddi ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru?	Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu oddi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru?
Rhybudd (panel)	pan ddaw'r rhybudd i ben	pan fydd y gorchymyn yn peidio â chael effaith
Ymgymeriadau (panel)	pan na fydd yr ymgymeriadau yn berthnasol mwyach os bydd cofrestriad y person cofrestredig yn darfod neu'n cael ei ddileu'n wirfoddol tra y bydd ymgymeriadau ar waith, bydd yr ymgymeriadau'n parhau i gael effaith ac yn aros ar y Gofrestr hyd nes y bydd yr ymgymeriadau yn peidio â chael effaith	pan fydd yr ymgymeriadau yn peidio â chael effaith
Atal dros dro	mae cofnod o'r atal dros dro yn parhau ar y Gofrestr cyhyd â bod y person wedi'i gofrestru	pan fydd yr atal dros dro yn peidio â chael effaith
cofrestru amodol	bydd y Gofrestr yn parhau i ddangos bod y person yn destun gorchymyn cofrestru amodol a'r dyddiadau yr oedd y gorchymyn mewn grym, ond gall y Cofrestrydd ddileu manylion yr amodau a osodwyd o dan y gorchymyn wedi i'r gorchymyn ddod i ben	pan fydd y gorchymyn cofrestru amodol yn peidio â chael effaith
dileu	bydd manylion y dileu yn ymddangos ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr a byddant yn aros ar y Rhestr oni bai a hyd nes y caiff y person eu hadfer i'r	pum mlynedd ar ôl dyddiad y dileu

	Gofrestr (neu y bydd tribiwnlys yn gwrthdroi'r dileu) Bydd gwybodaeth am y dileu yn cael ei dangos ar y Gofrestr bob amser os caiff y person eu hadfer i'r Gofrestr	
Math o orchymyn	Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu oddi ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru?	Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu oddi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru?
Atal dros dro amhenodol	mae cofnod o'r atal dros dro yn parhau ar y Gofrestr cyhyd â bod y person wedi'i gofrestru	pum mlynedd ar ôl dyddiad yr atal dros dro amhenodol, oni bai y caiff y person eu hadfer i'r Gofrestr cyn yr amser hwn, neu eu tynnu oddi ar y Gofrestr gan orchymyn dileu
Adferiad	<u>Adferwyd</u> – bydd gwybodaeth am dynnu'r person oddi ar y Gofrestr yn dilyn canfod amhariad yn parhau ar y Gofrestr cyhyd â bod y person wedi'i gofrestru	Wythnos ar ôl dyddiad y penderfyniad, neu y tu hwnt i hynny ar gais gan y person cofrestredig
	<u>Heb eu hadfer</u> – bydd y cofnod ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr yn aros yn ei le	deuddeng mis ar ôl dyddiad y penderfyniad i beidio ag adfer

4. Cofnodion ar y Gofrestr ar ôl canfod dim amhariad

Os cafwyd canfyddiad o ddim amhariad gan banel addasrwydd i ymarfer ac mae'r person cofrestredig wedi cael cyngor neu rybudd, rhaid i'r cofnod ar y Gofrestr nodi nad oes amhariad ar addasrwydd yr unigolyn i ymarfer, a dangos y canlyniad.

Math o orchymyn	Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu oddi ar y Gofrestr?	Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu oddi ar y wefan?
Cyngor (panel)	os nad yw'r panel yn nodi dyddiad penodol, bydd y wybodaeth yn aros ar y Gofrestr am 3 mis	Ymhen 3 mis
Rhybudd (panel)	pan ddaw'r rhybudd i ben	Pan ddaw'r rhybudd i ben

5. Cofnodion ar y Gofrestr yn dilyn rhybudd neu ymgymeriadau gan swyddog addasrwydd i ymarfer (nid panel).

Penderfyniad gan swyddog Addasrwydd i Ymarfer	Beth fydd y cofnod ar y Gofrestr yn ei ddangos a phryd fydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu oddi ar y Gofrestr?	Pryd fydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu oddi ar ein gwefan?
Rhybudd (swyddog)	Rhaid i'r cofnod nodi nad yw'r cwestiwn o amhariad wedi'i benderfynu a bod rhybudd wedi'i gyhoeddi gan Ofal Cymdeithasol Cymru Dileu? pan ddaw'r rhybudd i ben	Nid yw'n berthnasol
Ymgymeriadau (swyddog)	Rhaid i'r cofnod nodi nad yw'r cwestiwn o amhariad wedi'i benderfynu, a rhoi manylion yr ymgymeriadau a gytunwyd, ac eithrio unrhyw rai sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol y person Dileu? Pan fydd yr ymgymeriadau wedi peidio â chael effaith	Nid yw'n berthnasol
Dileu trwy gytundeb (swyddog)	Nid yw'n ymddangos ar y Gofrestr ac eithrio ei fod wedi'i gyfeirio at banel a'i awdurdodi ganddo Dileu? Ddim yn berthnasol	2 flynedd

ATODIAD 2

Gwybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys ar y Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr

Pa wybodaeth sy'n cael ei chynnwys ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr?

Rhaid i gofnod ar y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr ddangos:

- a. enw'r person
- b. y dyddiad y cafodd y person ei dynnu oddi ar y Gofrestr, a
- c. pha un o'r amgylchiadau yn adran 110(2) neu (4) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a achosodd i'w cofnod ar y Gofrestr gael ei ddileu.

Noder: Mae adran 110(2) yn ymdrin â thynnu oddi ar y Gofrestr yn dilyn canfyddiad o amhariad gan banel addasrwydd i ymarfer neu banel adolygu addasrwydd i ymarfer. Mae adran 110(4) yn ymdrin â thynnu oddi ar y Gofrestr trwy gytundeb gan banel addasrwydd i ymarfer neu banel adolygu addasrwydd i ymarfer.

Yn ogystal, bydd y Gofrestr yn dangos:

- ch. rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y person
- d. y Sir y mae'r person yn gweithio ynddi
- dd. o ba ran o'r Gofrestr y tynnwyd enw'r person.

Cofnodion 'dileu trwy gytundeb' ar y Gofrestr

Os yw panel wedi dileu trwy gytundeb heb fynd i'r afael â'r cwestiwn o amhariad, bydd y cofnod ar y Gofrestr yn dangos y datganiad ffeithiau y cytunwyd arno.

Os yw panel wedi dileu trwy gytundeb yn dilyn adolygiad o orchymyn, bydd y cofnod ar y Gofrestr yn dangos y datganiad ffeithiau y cytunwyd arno. Bydd cofnodion ar y

Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr yn aros yn eu lle oni bai a hyd nes y bydd enw'r person yn cael ei adfer i'r Gofrestr trwy gais llwyddiannus i Ofal Cymdeithasol Cymru, neu apêl llwyddiannus i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.